OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 1268 (Cy.115)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Gwaith Stryd (Taliadau am Feddiannaeth a Ymestynnir yn Afresymol ar y Briffordd) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *19 Mai 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *22 Ebrill 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Mehefin 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 74, 97 a 104(1) a (3) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991(**1**), ac a drosglwyddwyd ar ôl hynny i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

(**1**) 1991 p.22. Cafodd adran 74 ei diwygio gan Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p.38), adran 256, Atodlen 31, Rhan V, a chan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 (p.18), adrannau 40(4) a 52.

(**2**) Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 74, 97 a 104 wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru, cyn belled ag y bônt yn arferadwy o ran Cymru. Cafodd y swyddogaethau hynny eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2, Atodlen 1. Yn rhinwedd paragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), cawsant eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.